# Cyflogi Cydgysylltydd



## Pam talu am gydgysylltu?

Fel y gellid disgwyl, er mwyn rhedeg partneriaeth mae angen cymryd camau i ddod â phartneriaid ynghyd, ym mha ffordd bynnag. Bydd nifer mawr o bartneriaethau'n dechrau ar sail wirfoddol (a gallant ddewis aros felly), gan rannu rôl y bartneriaeth rhwng yr aelodau. Fodd bynnag, bydd y rhan fwyaf o bartneriaethau SFP yn cyrraedd pwynt, wrth iddynt ddatblygu, lle bydd arnynt angen rhywfaint o gymorth gan weithwyr cyflogedig i wireddu eu huchelgais a sicrhau cysondeb. Mae adborth gan aelodau SFP yn dangos bod cydgysylltu gan weithwyr cyflogedig wedi bod yn hanfodol i'w llwyddiant.

## 2. Beth yw Cydgysylltu Partneriaeth Fwyd?

**Nid rôl weinyddol yw cydgysylltu partneriaeth fwyd – mae'n galw am feithrin cysylltiadau, datblygu partneriaethau, rheoli prosiectau, a dull strategol o weithredu.**

**Nid oes un disgrifiad swydd penodol a fydd yn addas i bawb gan y bydd pob partneriaeth ag angen gwahanol fathau o gymorth.** Hefyd, maen nhw'n **newid dros amser**. Mewn rhai achosion, bydd rôl cydgysylltu ar y dechrau yn troi'n rôl fwy o lawer – yn rôl prif weithredwr hyd yn oed – wrth i'r bartneriaeth fwyd ehangu ei gweithgareddau a'i chyrhaeddiad.

Yn gyffredinol, er y byddai swydd amser llawn yn ddelfrydol, bydd y bartneriaeth fwyd yn dechrau fel arfer gyda swydd 2-4 diwrnod yr wythnos. Gellir cyfuno'r rôl hon ag un neu ragor o rolau eraill.

Mewn rhai lleoedd, bydd y gwaith cydgysylltu yn cael ei rannu rhwng dwy neu ragor o rolau ar wahân, ar wahanol lefelau a chyflogau, e.e. arweinydd ar lefel uwch neu strategol ynghyd â chynorthwyydd gweinyddol neu weithiwr prosiect. Mae hyn yn fwyaf cyffredin yn y partneriaethau bwyd sy'n cael eu lletya gan awdurdod lleol, ac yn y partneriaethau bwyd annibynnol mwyaf.

Os yw'r bartneriaeth fwyd yn cael ei lletya gan gyngor, dylid ystyried ym mha dîm y dylai'r swydd fod: mae'n beth cyffredin cael swyddi o'r fath yn y timau Polisi, Datblygu Economaidd, Cymorth i'r Sectorau Gwirfoddol a Chymunedol, Cymunedau, neu Iechyd Cyhoeddus. Gweler Canllaw SFP ar Strwythurau ar gyfer partneriaethau o dan adain Cynghorau, rhai yn y Sectorau Gwirfoddol a Chymunedol, a rhai cwbl annibynnol.

Mae lefel y cyflogau'n amrywio ond fel arfer byddant ar lefel uwch-swyddog – neu'n uwch na hynny. **Rydym yn argymell ystyried y cyflog yn ofalus – peidiwch â chynnig cyflog rhy isel! Mae'n bwysig bod y cydgysylltydd yn gallu cymryd golwg strategol a bod yn ddigon hyderus i ymwneud â rhanddeiliaid o lawer math – o lefel y gymuned i lefel uchel iawn.**

## 3. Hil, Tegwch, Amrywiaeth a Chynhwysiant yn allweddol

Cofiwch am adnodd Adolygu Hil, Tegwch, Amrywiaeth a Chynhwysiant SFP sy'n cynnwys: "**Recriwtio'n gydwybodol:** Mae'ch partneriaeth wedi datblygu gweithdrefnau recriwtio a chyflogaeth sy'n hyrwyddo egwyddorion Hil, Tegwch, Amrywiaeth a Chynhwysiant".

## 4. Hysbysebu'r swydd wag

Yn ogystal â defnyddio rhwydweithiau lleol, cofiwch rannu gwybodaeth am y swydd wag **drwy restr trafod e-bost SFP** (ymunwch yma).

Mae nifer o bartneriaethau hefyd yn defnyddio gwefannau cenedlaethol fel www.environmentjob.co.uk, www.charityjob.co.uk ac yn enwedig www.rootstowork.org sy'n hyrwyddo swyddi ym maes bwyd cynaliadwy yn y DU.

## 5. Beth i'w gynnwys yn y disgrifiad swydd?

### Cyfrifoldebau enghreifftiol (rhestr hir – dewiswch yn ofalus!)

| | |
|---|---|
| **Rheoli Rhaglenni** | • Datblygu (neu sefydlu) partneriaeth/rhwydwaith bwyd traws-sectoraidd amrywiol.<br>• Datblygu a chynnal strwythurau llywodraethu; y cadeirydd a/neu aelodau'r bartneriaeth.<br>• Datblygu/goruchwylio/ ymgynghori ar gyfer cydweithio ar strategaeth/ cynllunio gweithredu, gan gynnwys nifer o bartneriaid.<br>• Adrodd – i gyrff cyllido/ y grŵp llywio ar gynnydd ar gyflawni'r cynllun gweithredu.<br>• Dod o hyd i gyfleoedd i sicrhau cyllid a/neu ysgrifennu ceisiadau.<br>• Sicrhau cynhwysiant ac amrywiaeth (gellid cynnwys y defnydd o adnodd Adolygu Hil, Tegwch, Amrywiaeth a Chynhwysiant SFP ).<br>• Gweithio ar flaenoriaethau penodol eich lle – e.e. ymarfer mapio; ennill neu gadw gwobrau SFP; meithrin gallu/ hyfforddi partneriaid; datblygu adnoddau; dylanwadu ar bolisi lleol a/neu genedlaethol.<br>• Rheoli prosiectau sy'n cael eu harwain gan y bartneriaeth fwyd, a gymerir yn aml o'ch strategaeth bwyd neu gynllun gweithredu e.e. datblygu rhwydwaith penodol, siarter bwyd, hyrwyddo busnesau bwyd annibynnol, etc. |
| **Hwyluso, ymgysylltu, hyrwyddo** | • Hwyluso e.e. y bartneriaeth (os nad oes cadeirydd) a/neu gyfarfodydd eraill e.e. grŵp llywio, gweithgorau.<br>• Ymgysylltu e.e. cynyddu'r aelodaeth, y nifer sy'n cymryd rhan, etc.<br>• Digwyddiadau – wyneb yn wyneb neu ar-lein (rhedeg neu oruchwylio)<br>• Meithrin cysylltiadau – â rhanddeiliaid ar bob lefel.<br>• Cyfathrebu (gwefan/ cyfryngau cymdeithasol/ cylchlythyrau) a/neu ymgyrchoedd.<br>• Cymryd rhan mewn cyfleoedd Lleoedd Bwyd Cynaliadwy a chyfleoedd eraill e.e.rhwydweithiau a fforymau bwyd rhanbarthol/ cenedlaethol. |
| **Gweinyddu** | • Sefydlu a gwasanaethu cyfarfodydd<br>• Gweinyddu sy'n gysylltiedig â digwyddiadau |

### Sgiliau/Gwybodaeth/Profiad enghreifftiol (Dewiswch yn ofalus!)

- Gweithio mewn partneriaeth
- Ymgysylltu â'r gymuned/ dulliau cyfranogol
- Meithrin cysylltiadau – ar wahanol lefelau
- Gweithio'n strategol/ goruchwylio ac adrodd ar y strategaeth
- Datblygu rhaglenni/ rheoli prosiectau/ sgiliau trefniadol
- Codi arian/ ysgrifennu ceisiadau/ profiad o adrodd a/neu reoli staff
- Profiad o gynnal digwyddiadau a/neu ymgyrchoedd
- Sgiliau monitro a gwerthuso
- Sgiliau cyfathrebu – ysgrifenedig a geiriol – ar gyfer gwahanol randdeiliaid
- Sgiliau hwyluso
- Profiad o/ ymrwymiad i amrywiaeth a chynhwysiant, yn cynnwys lleisiau a glywir yn llai aml
- Sgiliau gweinyddu/ rhedeg digwyddiadau/ gwneud cofnodion

## Beth arall? Mae rhai Partneriaethau Bwyd yn gofyn am y rhain…

- Addysg e.e. gradd neu gymhwyster ar lefel gyfatebol (ond ystyriwch gynnwys profiad / profiad bywyd fel dewis arall).
- Parodrwydd i ddysgu am faterion bwyd neu systemau bwyd a/neu faterion cymdeithasol/ amgylcheddol/ economaidd perthnasol (mae rhai'n nodi 'profiad' o'r rhain – ond gallai hynny gau allan ymgeiswyr da).
- Rhinweddau personol e.e. menter, empathi, tringarwch; egni creadigol, canolbwyntio ar atebion, dyfeisgar, ymarferol; yn barod i ddelio ag ansicrwydd.
- Y gallu i feddwl yn strategol / canfod y cyfleoedd gorau mewn sefyllfa gymhleth.
- Gwybodaeth am faes penodol fel iechyd cyhoeddus, newid hinsawdd; neu ddealltwriaeth o fwyd cymunedol.
- Dealltwriaeth o gyfleoedd lleol a/neu genedlaethol i ddylanwadu ar bolisi.
- Ymwybyddiaeth wleidyddol mewn perthynas â materion bwyd.
- Y gallu i weithio ar y 'darlun mawr' gan ddarparu prosiectau yn lleol yr un pryd.
- Dealltwriaeth neu brofiad bywyd o dlodi bwyd a/neu brofiad o weithio gyda phobl sydd heb ddigon o gynrychiolaeth neu sydd wedi'u hymyleiddio.
- Lleoliadau neu batrymau gweithio e.e. ar gael gyda'r nos/ar benwythnosau.
- Yn enwedig mewn cynghorau, angen posibl am gysylltiad â meysydd eraill e.e. arwain ar faterion bwyd o dan strategaeth newid hinsawdd y cyngor, neu faes iechyd.
- Gofynion eich sefydliad e.e. cyfle cyfartal, sgiliau TGCh (dylunio gwefannau weithiau), cyfrinachedd, iechyd a diogelwch, croesawu ceisiadau gan rai mewn grwpiau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol.
- "Os nad yw'r holl brofiad gofynnol gennych chi, mae croeso i chi drafod y rôl hon â ni".

## Teitlau swydd neu rolau cyffredin

- Cydgysylltydd Partneriaeth Fwyd
- Cydgysylltydd Rhwydwaith
- Cydgysylltydd Bwyd Cynaliadwy
- Swyddog Datblygu
- Rheolwr Polisi a Phartneriaethau
- Cyfarwyddwr/ Prif Weithredwr

# Tri gair o gyngor i sicrhau cyflogaeth lwyddiannus

1. **Cysylltu ag SFP ar y cam cynharaf:** Yn aml bydd cydgysylltwyr partneriaeth fwyd yn cyflawni rôl unigryw yn lleol, felly bydd ein rhwydwaith yn bwysig o ran cynnig cymorth a dysgu gan gymheiriaid. Gall SFP ddarparu cymorth cynefino i gydgysylltwyr newydd a fydd yn tynnu sylw at yr adnoddau a'r cymorth a gynigiwn. Weithiau gallwn drefnu ac ariannu mentora gan gydgysylltydd mwy profiadol.
2. **Sicrhau cefnogaeth:** Mae'r rôl gymhleth hon yn galw am gydbwyso nifer o flaenoriaethau a gall hyn achosi straen. Gofalwch fod eich cydgysylltydd newydd yn cael cefnogaeth glir gan reolwyr. Rydym yn argymell ei gyflogi gan sefydliad lletya (nid yn llawrydd/hunangyflogedig) er mwyn sicrhau swyddogaeth/cefnogaeth adnoddau dynol.
3. **Meithrin ymrwymiad eich sefydliad:** Yn aml ni fydd dim neu nemor ddim profiad o bartneriaethau bwyd gan y sefydliad sy'n lletya – felly mae'n bwysig bod ymrwymiad ehangach yn y sefydliad i ddeall y model hwn er mwyn sicrhau na fydd y cydgysylltydd yn teimlo'n ynysig neu ar wahân.

Yr ymchwil a'r testun gan Emily O'Brien, Food Matters
a Chris Walker, Soil Association - Medi 2022